LLOYD, DAVID (1805 - 1863), prifathro Coleg Caerfyrddin a gweinidog Undodaidd

Enw: David Lloyd
Dyddiad geni: 1805
Dyddiad marw: 1863
Priod: Ellen Lloyd (née Smith)
Plentyn: Lucy Lloyd Theakston (née Lloyd)
Plentyn: David Lloyd
Rhiant: John Lloyd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: prifathro Coleg Caerfyrddin a gweinidog Undodaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg
Awdur: Thomas Oswald Williams

Ganwyd yn y flwyddyn 1805 ym mhentref Llandysul, mab John Lloyd, ysgolfeistr, ac wyr i David Lloyd, Brynllefrith, a'i fam yn ferch y Parch. Henry Thomas, offeiriad Bangor Teifi a Henllan. Bu yn ysgol ei dad, yn ysgol ei ewythr y Dr. Charles Lloyd yn ysgol y Parch. John Thomas, Pantydefaid, yng Ngholeg Caerfyrddin (1825-9), ac ym Mhrifysgol Glasgow (1829-33; M.A.). Yn ôl *Oriel Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin* penodwyd ef yn athro'r clasuron yn y coleg yn 1833 ac yn brifathro yn 1835, a daliodd y swydd hyd ei farw yn 1863.

Am y blynyddoedd cyntaf yng Nghaerfyrddin cadwai ysgol ramadeg fel ei ragflaenwyr. Ystyrid ef yn wr o gyneddfau naturiol cryfion, yn ysgolor da, a gwr bonheddig. Yr oedd yn weinidog y gynulleidfa fach Undodaidd yn y dref a addolai yn hen gapel y Crynwyr hyd 1849 pan gododd y Dr. Lloyd gapel Parc-y-felfed ac ysgoldy gerllaw. Perthynai i'r hen ysgol, neu'r Undodiaid Beiblaidd fel y'u gelwid, ac yr oedd yn un o ddilynwyr Priestley. Ni fynnai mo syniadau newydd Colenso, Parker, Tyler, na Martineau. Ceidwadol ydoedd ei syniadau, a maentumid na newidiodd mo'i syniadau o ddyddiau'r coleg i'r diwedd. Yn 1844 ysgrifennodd adolygiad beirniadol llym ar *Endeavours* Martineau, ond ni thyciai mo'i feirniadaeth. Yr oedd yn hoff o ddadlau, a bu mewn dadleuon brwd â D. A. Williams, canghellor esgobaeth Tyddewi, Hugh Jones (Bedyddiwr), Caerfyrddin, yr esgob Thirlwall, a ' Gwilym Marles ' ar ddaliadau Theodore Parker. Pleidiodd addysg yn y dref, a gweithiodd yn egnïol o blaid y clafdy a'r gladdfa gyhoeddus. Yn ei farw collodd y myfyrwyr Cymreig ffrind calon, a chafodd y mudiad Undodaidd yn y dref golled anfesuradwy. Yn 1853 priododd Ellen, merch Stephen Smith, Swainby, swydd York, a bu iddynt ddau o blant, David a Lucy Lloyd Theakston (*Lloyd Records and Pedigrees*, 1913). Bu farw 13 Medi 1863, a chladdwyd ef yng nghladdfa gyhoeddus Caerfyrddin.

Awdur

Y Parchedig Thomas Oswald Williams, (1888 - 1965)

Ffynonellau

Yr Ymofynnydd, 1901 (217-23), 1895 (242), 1863 (243)

L. E. Lloyd-Theakston and John Davies, *Some family records & pedigrees of the Lloyds of Allt yr Odyn, Castell Hywel, Ffos y Bleiddiaid, Gilfach Wen, Llan Llyr and Waun Ifor* (Rhydychen 1912-1913), 99-107

G. Eyre Evans, *Lloyd Letters (1754–96)* (1908), xl-xlix

Christian Reformer, 1863, 639, 679

W. D. Jeremy, *The Presbyterian Fund and Dr. Williams' Trust* (1885), 74

A History of Carmarthenshire, ii, 242-3

A roll of the graduates of the University of Glasgow from 31st December, 1727 to 31st December, 1897 With short biographical notes (Glasgow 1898)

E. Pan Jones *Oriel Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin* (Merthyr Tydfil 1909)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu